Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

# Ysgol Gynradd Aberporth
**Aberporth**
**Ceredigion**
**SA43 2DE**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Iechyd ar Waith – Cyrraedd y Nod – The Corporate Standard – Health at Work

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd – Green Dragon Environmental Standard

Buddsoddwyr Mewn Pobl | Aur

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 17/07/2013**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Gynradd Gymunedol Aberporth ar arfordir Ceredigion ym mhentref Aberporth tua saith milltir i'r gogledd o Aberteifi. Mae'r ysgol yn gwasanaethu'r gymuned leol a'r ardal gyfagos. Mae'r ysgol yn disgrifio'i dalgylch fel un difreintiedig sydd bellach wedi ei nodi fel ardal sy'n deilwng i gefnogaeth gweithdrefnau Dechrau'n Deg. Derbynia'r ysgol ddisgyblion yn llawn amser i'r dosbarth derbyn ar ddechrau'r tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed. Dynodir yr ysgol yn Ysgol Gymraeg.

Mae 122 o ddisgyblion ar y gofrestr yr ysgol yn cynnwys disgyblion Canolfan y Don, sef uned ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig dwys. Mae 22% o'r disgyblion yn dod o gartrefi Cymraeg, fodd bynnag, oddeutu 12% ohonynt sydd o gefndir lle mae'r Gymraeg yn brif neu unig iaith yr aelwyd. Ychydig iawn o ddisgyblion o gefndir ethnig lleiafrifol sydd yn yr ysgol ar hyn o bryd. Mae 24% â hawl i brydau bwyd ysgol am ddim, ffigwr sydd ychydig yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Maeoddeutu 31% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yr ysgol sydd yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion Cymru. Mae gan naw plentyn ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym Mehefin 2007. Yn dilyn cyfod ansefydlog o ran arweinyddiaeth yr ysgol mae'r pennaeth â gofal a'r pennaeth cynorthwyol dros dro wedi bod yn eu swyddi ers Ebrill 2013..

Y gyllideb fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Aberporth yn 2012-2013 yw £4,100. Yr uchafswm o ran cyllideb ysgol fesul disgybl yn ysgolion cynradd Ceredigion yw £12,284 a'r lleiafswm yw £2,820. Mae Ysgol Gynradd Aberporth yn safle 28ain allan o'r 58 ysgol gynradd yn sir Ceredigion o safbwynt y gyllideb fesul disgybl.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Da |
|---|---|
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol Ysgol Aberporth yn dda oherwydd:

- bod cyflawniad mewn Iaith a Chyfathrebu yn y Gymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn cymharu'n ffafriol iawn ag ysgolion tebyg;
- bod y disgyblion sydd yn mynychu Canolfan y Don yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau, ac yn cael eu cynnwys ymhob agwedd o fywyd yr ysgol;
- bod y gefnogaeth i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda;
- bod aelodau'r cyngor ysgol yn cydweithio'n dda wrth wneud penderfyniadau ac yn cynrychioli barn y disgyblion yn feddylgar; a
- bod gan yr ysgol weithdrefnau.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella Ysgol Aberporth yn ddigonol oherwydd:

- o fewn cyfnod cymharol fyr mae'r pennaeth mewn gofal a'r uwch dîm rheoli newydd wedi darparu arweiniad cadarn;
- bod arweinwyr yn rhoi pwyslais addas ar godi safonau, cynhwysiant a lles disgyblion;
- bod y corff llywodraethol yn cyd-weithio'n dda gyda'r Awdurdod i sicrhau cryfhau'r arweinyddiaeth; a
- bod yr adroddiad hunanarfarnu yn gynhwysfawr ac yn dathlu rhai o gryfderau'r ysgol ac adnabod rhai o'r materion i'w datblygu yn gywir.

Er hynny:

- nid oes gweledigaeth glir gytunedig gan yr ysgol;
- nid yw'r trefniadau diweddar wedi cael digon o amser i effeithio'n llawn ar agweddau o fywyd yr ysgol;
- nid yw rôl y corff llywodraethol fel cyfaill beirniadol a'i allu i ddal yr ysgol i gyfrif am safonau wedi datblygu'n llawn; a
- nid yw'r ysgol yn cyfathrebu'n ddigon effeithiol gyda rhieni.

## Argymhellion

A1 Sicrhau fod darpariaeth yr ysgol yn ymateb yn llawn i ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol a Maes Llafur Cytûn Addysg Grefyddol y sir

A2 Monitro'r cynlluniau newydd i sicrhau fod medrau rhifedd a TGCh yn datblygu'n llwyddiannus ar draws y cwricwlwm

A3 Sefydlogi arweinyddiaeth yr ysgol a datblygu cyfrifoldebau strategol y tim rheoli

A4 Cryfhau trefniadau hunanarfarnu yr ysgol i sicrhau ei bod yn adnabod cryfderau ac anghenion gwella yn well

A5 Datblygu rôl y corff llywodraethol fel cyfaill beirniadol

A6 Cryfhau'r bartneriaeth gyda rhieni gan roi ffocws arbennig ar wella cyfathrebu

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

'Bydd Ysgol Gynradd Aberporth yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.'

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae y rhan fwyaf o ddisgyblion Ysgol Aberporth yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Ar y cyfan, mae disgyblion ar draws yr ysgol yn gwrando'n ofalus ac yn cyfrannu'n frwdfrydig yn y gwersi. Mae bron pob un yn cydweithio'n dda mewn parau ac mewn grwpiau, gan gyfrannu'n effeithiol i drafodaethau.

Yn y Cyfnod Sylfaen mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyfathrebu'n llwyddiannus yn y Gymraeg gan ddefnyddio geirfa sy'n briodol i'r testun. Erbyn diwedd y cyfnod dônt yn gynyddol hyderus wrth drafod eu gwaith gan ddefnyddio cystrawen gadarn a chlir. O ystyried eu cefndir ieithyddol, mae eu medrau llafar yn datblygu'n fuan. Datblygir hyn ymhellach yng nghyfnod allweddol 2, gyda'r goreuon yn sgwrsio'n hyderus ac aeddfed mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol. Mae bron pob un yn cyfathrebu'n llwyddiannus yn Saesneg gan drafod eu syniadau'n ystyrlon.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen llyfrau gyda mynegiant gan ddefnyddio ystod o strategaethau darllen yn effeithiol wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd. Erbyn diwedd blwyddyn 2, maent yn gallu trafod cynnwys yn ystyrlon gan gyfeirio at ddigwyddiadau yn y llyfr. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu hysgrifennu. Gallant ysgrifennu at wahanol ddibenion ac ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd gan sillafu ac atalnodi eu gwaith yn briodol yn ôl eu hoed a'u gallu.

Mae disgyblion hynaf yr ysgol yn darllen ystod o ddeunyddiau'n effeithiol er mwyn cywain gwybodaeth yn y ddwy iaith. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen gyda rhuglder a mynegiant yn y Saesneg. Fodd bynnag, nid yw medrau darllen ychydig o ddisgyblion wedi datblygu cystal yn y Gymraeg. Mae medrau darllen disgyblion sy'n derbyn cymorth rhaglenni ymyrraeth yn datblygu'n dda. Yn gyffredinol mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn gallu ysgrifennu mewn gwahanol ffurfiau a hynny ar draws ystod o bynciau, ond nid yw hyn yn gyson ar draws y dosbarthiadau. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn atalnodi eu gwaith yn gywir. Erbyn blwyddyn 6, mae llawer yn gallu ysgrifennu'n estynedig gyda'r goreuon yn defnyddio geirfa ehangach i greu effeithiau yn y ddwy iaith.

Mae medrau llythrennedd a rhifedd y disgyblion yn datblygu'n dda. Er hynny, nid yw medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) wedi datblygu'n gyson ar draws yr ysgol.

Mae'r disgyblion sydd yn mynychu Canolfan y Don yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau. Mae'r disgyblion yn gwrando ac yn canolbwyntio'n dda o fewn eu gallu. Mae pob un yn dangos brwdfrydedd tuag at y gweithgareddau. Er fod lefel cyrhaeddiad mwyafrif o'r disgyblion yn isel, mae medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r disgyblion yn dangos cynnydd da. Mae

sgiliau trawsieithu ychydig iawn o ddisgyblion yn dda wrth iddynt ddarllen a thrafod testun yn y ddwy iaith.

Mae'r disgyblion sydd yn mynychu Canolfan y Don yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau.

Yn gyffredinol mae asesiadau cychwynnol disgyblion ar fynediad i'r ysgol yn dangos sgiliau ieithyddol a mathemategol isel. Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, mae cyflawniadau ar y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn cymharu'n ffafriol ag ysgolion tebyg ymhob agwedd ar wahân i ddatblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol. Mae perfformiad yr ysgol yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran hawl i brydau ysgol am ddim yn y maes dysgu hwn. Mae cyflawniadau disgyblion ar ddeilliant 5 a 6 mewn sgiliau iaith llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Wrth dynnu deilliannau disgyblion Canolfan y Don o'r data, mae perfformiad yr ysgol yn gyffredinol yn y 25% neu'r 50% uchaf ymhob maes dysgu o gymharu ag ysgolion tebyg.

Yn 2012, roedd perfformiad yr ysgol ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn dda. Fodd bynnag, dros y tair blynedd flaenorol, gosodwyd yr ysgol yn y 50% isaf ymhob pwnc craidd o gymharu ag ysgolion tebyg o ran cinio am ddim. Fodd bynnag, wrth dynnu deilliannau disgyblion Canolfan y Don o'r data, mae perfformiad yr ysgol dros y tair blynedd diwethaf yn gyson yn y 50% uchaf o'i chymharu ag ysgolion tebyg. Er bod cynnydd sylweddol yng nghanran y disgyblion a gyrhaeddodd lefel 4+ yn y Gymraeg dros y tair blynedd diwethaf, yn gyffredinol mae'r ysgol dal yn perfformio yn y 50% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg.. Mae cyflawniadau disgyblion ar y lefel uwch (lefel 5+)yn amrywio ac yn cymharu'n llai ffafriol.

Yn gyffredinol, nid oes bwlch arwyddocaol rhwng cyflawniadau'r bechgyn a'r merched ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Dros gyfnod o amser, mae bechgyn ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn cyflawni'n well na'r merched ar y lefelau uwch (lefel 5+) mewn mathemateg a gwyddoniaeth.

**Lles: Da**

Mae medrau personol, cymdeithasol a medrau bywyd bron pob disgybl yn datblygu'n llwyddiannus ac yn eu paratoi'n addas ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu haddysg. Mae disgyblion Canolfan y Don yn gwneud cynnydd da yn eu medrau cymdeithasol.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn dangos ymwybyddiaeth dda ac effaith gweithgareddau yn ymwneud â lles a ffitrwydd. Mae bron pob un yn deall yr angen i ymgymryd ag ymarfer corff yn rheolaidd ac i fwyta'n iach. Yn gyffredinol, mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn ymwybodol at bwy y gallant droi os oes angen cyngor arnynt.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos diddordeb a chymhelliant yn eu dysgu. Mae llawer yn gweithio'n annibynnol ond nid yw hyn yn gyson ar draws yr ysgol.

Mae ymddygiad bron pob un o'r disgyblion yn dda o fewn y dosbarthiadau ac yn ystod amser egwyl a chinio. Mae bron bob disgybl yn gwrtais ac yn parchu ei gilydd.

Mae aelodau'r cyngor ysgol yn cydweithio'n effeithiol wrth wneud penderfyniadau ac yn cynrychioli barn y disgyblion yn feddylgar. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn ymgymryd â chyfrifoldebau yn gydwybodol iawn o fewn yr ysgol a thu hwnt trwy weithgareddau cymunedol. Enghraifft o hyn yw'r prynhawn coffi sy'n cael ei gynnal gyda'r henoed pob hanner tymor. Mae cysylltiad cryf iawn yn bodoli rhwng Canolfan y Don a'r gymuned.

Mae presenoldeb disgyblion wedi gwella dros y tair blynedd diwethaf ac mae yn cymharu'n ffafriol ag ysgolion tebyg. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r ysgol yn cynnig profiadau dysgu amrywiol ar gyfer y disgyblion, sy'n cyfarfod â rhan fwyaf o ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ac egwyddorion y Cyfnod Sylfaen. Nid yw'r ysgol yn ymateb yn llawn i ddisgwyliadau Maes Llafur Cytûn Addysg Grefyddol y sir.

Ar y cyfan mae'r cynllunio'n ateb i anghenion y disgyblion a'u hysgogi'n briodol. Mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen gyfrannu'n effeithiol at eu dysgu. O ganlyniad mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da.

Mae'r cynlluniau diweddar yn nodi cyfleoedd i ddatblygu medrau ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid ydynt wedi cael digon o amser i effeithio'n llawn ar draws ystod o bynciau. Nid yw medrau rhifedd a TGCh wedi datblygu'n yn ddigon llwyddiannus.

Mae gan yr ysgol darpariaeth effeithiol ar gyfer cefnogi disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd trwy raglenni ymyrraeth. Mae'r rhaglenni hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau'r disgyblion.

Cynigir amrywiaeth o weithgareddau i gyfoethogi'r cwricwlwm gan gynnwys ymweliadau â sefydliadau megis y Llyfrgell Genedlaethol, Castell Henllys a chanolfan preswyl Llain. Mae'r disgyblion wedi elwa o gyfleoedd i gystadlu yn nifer o wahanol gystadlaethau'r Urdd.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn llwyddiannus. Mae'r ysgol yn cynllunio'n briodol ar gyfer y Cwricwlwm Cymreig ac yn cynnig profiadau gwerthfawr sy'n datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion o nodweddion a diwylliant yr ardal leol a Chymru. Enghraifft o hyn yw'r ymweliadau â Chastell Henllys a Chastell Carew.

Rhoddir sylw dyledus i agweddau eco a dinasyddiaeth fyd-eang yng nghwricwlwm yr ysgol trwy'r cysylltiadau â gwelydd tramor.

**Addysgu: Da**

Yn gyffredinol, mae'r addysgu ar draws yr ysgol yn gadarn. Mae'r athrawon yn defnyddio ystod eang o strategaethau addysgu'n llwyddiannus. Mae gan yr athrawon wybodaeth bynciol addas ac maent yn adeiladu ar wybodaeth flaenorol y disgyblion yn effeithiol. Mae'r addysgu a'r cymorth wedi'u ffocysu'n glir ac mae cwestiynu heriol yn ymateb i anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae'r holl athrawon yn modelu iaith yn dda.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn datblygu'n briodol ar draws yr ysgol. Mae'r athrawon yn cynllunio gwersi gyda nodau ac amcanion clir. Mae'r amcanion yn cael eu rhannu'n ofalus gyda'r disgyblion ar ddechrau'r wers, ac maent yn cyfeirio'n rheolaidd at y meini prawf llwyddiant wrth i'r wers ddatblygu. Yn gyffredinol mae'r adborth a roddir i'r disgyblion yn adeiladol ac yn cynnig camau i'w datblygu. Mae hyn, yn ogystal â thargedau unigol, yn eu galluogi'r disgyblion i wybod pa mor dda y maent yn ei wneud, a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella. Serch hynny nid oes digon o gyfleoedd i'r disgyblion ymateb i'r sylwadau.

Mae'r ysgol yn dechrau defnyddio ystod addas o ddeunydd asesu'n effeithiol i greu darlun clir o gryfderau a materion sydd angen eu datblygu 'mhellach. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd priodol o'r system dracio electronig ar gyfer holl ddisgyblion yr ysgol, fodd bynnag mae mewn dyddiau cynnar o'i ddatblygiad.

Mae'r trefniadau asesu yng Nghanolfan y Don yn adnabod cynnydd y disgyblion yn erbyn eu targedau yn effeithiol. Gwneir defnydd da o'r canlyniadau yma i gynllunio addysgu manwl pellach.

Nid yw'r wybodaeth a roddir i rieni yn rhoi darlun digon clir iddynt am gynnydd eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae ethos cynhwysol a chartrefol yr ysgol yn hyrwyddo iechyd a lles disgyblion Ysgol Aberporth yn llwyddiannus iawn. Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol ar gyfer cefnogi disgyblion bregus ac i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol. Gwneir defnydd llawn o asiantaethau arbenigol i gefnogi ac arwain disgyblion a staff. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion Canolfan y Don yn dda ac yn ymateb yn llawn i'w anghenion dwys. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd addas o arbenigedd allanol ynghyd â chymorth effeithiol y cymorthyddion i sicrhau cefnogaeth o ansawdd uchel i'r holl ddisgyblion.

Mae perthynas ofalgar yn bodoli rhwng yr athrawon a'u disgyblion ac mae ethos cefnogol yn amlwg o fewn y dosbarthiadau. Mae hyn yn sicrhau fod y rhan fwyaf o'r disgyblion wedi'u cymell ac yn dangos diddordeb yn eu dysgu.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol ar draws yr ysgol yn dda . Mae gan yr ysgol systemau effeithiol ar gyfer adnabod anghenion dysgu'r disgyblion, ac maent yn ymateb i'w anghenion yn fuan. O ganlyniad, mae'r ysgol yn sicrhau lefel uchel o gynhaliaeth a chefnogaeth i ddisgyblion yr ysgol. Mae'r ysgol wedi rhoi nifer o raglenni ymyrraeth ar waith, a thrwy fonitro gofalus, mae'r disgyblion hyn yn

gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau. Er hynny, nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog wedi datblygu'n llawn.

Mae cynlluniau addysg unigol yn fanwl ac o ansawdd da. Mae'r ysgol yn trefnu cyfarfodydd rheolaidd i adolygu cynlluniau ac mae'r disgyblion, rhieni a gofalwyr yn cael eu cynnwys yn briodol yn y broses. Mae'r disgyblion sy'n cael eu hintegreiddio i'r brif ffrwd yn cael cymorth da iawn a chaiff eu hanghenion eu bodloni'n dda.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn briodol drwy sesiynau cyd-addoli rheolaidd a chyfleoedd i ddisgyblion fyfyrio'n dawel.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu yn cwrdd â gofynion statudol ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned glos, gynhwysol a gofalgar ac o ganlyniad mae'r disgyblion yn hapus a diogel. Mae'r ysgol yn sicrhau cyfle cyfartal i bob disgybl. Mae disgyblion Canolfan y Don yn cael eu cynnwys yn effeithiol ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol. Llwydda'r staff i feithrin agweddau ac ymddygiad cadarnhaol ymhlith y disgyblion.

Mae'r amgylchedd dysgu yn gyffredinol o ansawdd da. Mae addasiadau diweddar a wnaed i'r adeilad wedi cyfrannu at sicrhau mynediad ar gyfer pob disgybl. Ceir arddangosfeydd lliwgar a symbylus i gefnogi'r addysgu a'r dysgu. Mae gan yr ysgol ardaloedd allanol helaeth ond nid ydynt wedi eu datblygu i'w llawn botensial, yn enwedig ar gyfer y Cyfnod Sylfaen.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |

**Arweinyddiaeth: Digonol**

O fewn cyfnod cymharol fyr mae'r pennaeth mewn gofal a'r uwch dîm rheoli newydd wedi darparu arweiniad cadarn. Maent wedi rhoi blaenoriaeth briodol ar gael y staff i weithio fel tîm gyda phwyslais addas ar godi safonau, cynhwysiant a lles disgyblion. Serch hynny nid yw'r ysgol wedi datblygu gweledigaeth glir, gytunedig hyd yn hyn.

Bellach mae gan yr ysgol ystod briodol o bolisïau disgwyliedig ac mae'r uwch dîm rheoli yn sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu. Yn ddiweddar, ffurfiwyd strwythur staffio newydd ac mae gan yr holl staff gyfrifoldebau a disgrifiadau swyddi clir. Fodd bynnag, nid yw'r datblygiadau diweddar wedi cael digon o amser i effeithio'n llawn ar bob agwedd o fywyd yr ysgol.

Mae'r corff llywodraethol yn cyd-weithio'n dda gyda'r Awdurdod i gryfhau'r arweinyddiaeth. Fodd bynnag, bu'r corff yn rhy araf i sicrhau synnwyr o gyfeiriad ar gyfer yr ysgol. Mae aelodau o'r corff wedi dechrau ymweld â'r ysgol i arsylwi gwersi fel rhan o broses hunanarfarnu'r ysgol ac mae hyn yn gymorth iddynt gael profiad

uniongyrchol o safonau'r ysgol. Serch hynny, nid yw eu rôl fel cyfeillion beirniadol a'u gallu i ddal yr ysgol i gyfrif am safonau wedi datblygu'n llawn.

Mae'r ysgol yn talu sylw pwrpasol i flaenoriaethau cenedlaethol gan sicrhau bod y cynllun datblygu ysgol yn ffocysu yn gadarn ar godi safonau llythrennedd a rhifedd. Trwy raglenni ymyrraeth effeithiol mae'r ysgol yn rhoi sylw priodol i elfennau o ddifreintedd. Ar y cyfan mae egwyddorion y Cyfnod Sylfaen a lles disgyblion yn cael sylw dyledus.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn gynhwysfawr ac yn dathlu rhai o gryfderau'r ysgol yn ogystal ag adnabod rhai materion sydd angen eu datblygu. Serch hynny, nid yw'n ddigon arfarnol ac o ganlyniad nid yw'n adnabod yn ddigon cywir yr ystod lawn o faterion sydd angen sylw. Mae'r trefniadau bellach yn rhoi ystyriaeth briodol i farn disgyblion a rhieni.

Mae rhai o'r staff dysgu yn craffu ar waith disgyblion, dehongli data, arsylwi gwersi a pharatoi adroddiadau. Ar y cyfan, mae'r adroddiadau yn adnabod cryfderau a meysydd i'w datblygu yn briodol ond maent yn amrywio o ran ansawdd yr arfarniadau. Nid ydynt chwaith yn cael eu hystyried yn briodol yn adroddiad hunanarfarnu'r ysgol. Ni chafodd y corff llywodraethol gyfle i gytuno na herio cywirdeb yr adroddiad.

Mae cysylltiad amlwg rhwng yr adroddiad hunanarfarnu a blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol. Mae'r cynllun datblygu yn cyfeirio yn briodol at rai targedau meintiol, y camau i'w cymryd a'r meini prawf llwyddiant. Mae hefyd yn nodi amseriad a chyfrifoldebau yn briodol ac yn amlinellu trefniadau monitro a chyllidebu addas. Serch hynny, nid yw'r cynllun wedi gosod targedau clir ar gyfer materion pwysig sydd angen eu gwella yn yr ysgol megis addasu'r cynlluniau i sicrhau datblygiad yn y medrau a nifer o elfennau yn ymwneud ag arweinyddiaeth.

Mae'r ysgol wedi mynd i'r afael â rhai agweddau o'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion trwy sefydlu cymuned ddysgu broffesiynol fewnol sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar integreiddio disgyblion Canolfan y Don i'r brif ffrwd.

**Gweithio mewn partneriaeth: Digonol**

Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gyda nifer o bartneriaethau, gan gynnwys byd busnes, a'r awdurdod lleol, er mwyn ehangu'r ddarpariaetha chyfrannu at gyfoethogi profiadau'r disgyblion. Mae'r gwaith yma hefyd yn cynorthwyo i godi safonau disgyblion ac i ddatblygu elfennau o arweinyddiaeth. Mae cyswllt gyda nifer o arweinwyr Cristnogol yn cyfrannu'n dda at ddatblygiad ysbrydol y disgyblion ac yn creu ymdeimlad o berthyn i'r gymuned.

Mae cyswllt da yn gyffredinol gyda'r ddau ddarparwr cyn ysgol sydd yn bwydo'r ysgol. Mae hyn yn hwyluso trosglwyddiad esmwyth y disgyblion i'r dosbarth derbyn. Mae trefniadau trosglwyddo llwyddiannus yn bodoli hefyd rhwng yr ysgol a'r ysgol uwchradd leol sydd yn paratoi'r disgyblion hŷn yn dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gydag ysgol arall i rannu arfer dda ym maes anghenion addysg arbennig. O ganlyniad mae Canolfan y Don wedi elwa o allu datblygu'r ardaloedd Cyfnod Sylfaen a'r buarth er mwyn gwella sgiliau corfforol y plant. Mae'r trefniadau cydweithio ar gyfer safoni gwaith disgyblion talaith Llandysul ac Aberteifi yn effeithiol. Mae hyn wedi codi hyder yr athrawon a chyfrannu at sicrhau bod gwaith disgyblion yn cael ei lefelu yn briodol.

Mae yna bartneriaethau cefnogol rhwng Canolfan y Don, y rhieni a'r gymuned. Mae gan y Ganolfan gysylltiadau buddiol gydag ysgol a chanolfannau arbennig eraill. Mae hyn yn cyfrannu yn effeithiol tuag at ddatblygu cymunedau dysgu a sicrhau ansawdd ar y cyd. Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus iawn gyda chyfeillion Canolfan y Don. Cyfrannodd y cyfeillion rai miloedd ar gyfer adnoddau i'r ganolfan ac mae'r disgyblion wedi elwa'n sylweddol drwy hyn.

Mae'r rhieni yn cyfrannu'n briodol at waith yr ysgol drwy weithgareddau'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon. Serch hynny, nid yw'r ysgol yn cyfathrebu'n ddigon effeithiol gyda rhieni.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol lefel briodol o staff ac fe wneir defnydd effeithiol o'u harbenigedd i gefnogi unigolion ac i gyfoethogi'r addysgu a'r dysgu. Bellach, mae staff yr ysgol yn dechrau cydweithio fel tîm. Mae staff Canolfan y Don yn sicrhau eu bod yn gwneud defnydd effeithiol o'u hamser, arbenigedd a phrofiad i gynnig addysg a chymorth effeithiol i'r disgyblion. Mae'r athrawon yn defnyddio eu hamser cynllunio, paratoi ac asesu'n briodol. Mae hyn yn cyfrannu at gynnal safonau a lles disgyblion.

Mae gan yr ysgol drefniadau rheoli perfformiad priodol ar gyfer athrawon a chymorthyddion. Mae'r staff i gyd yn elwa o hyfforddiant sy'n cael ei drefnu yn ôl blaenoriaethau'r ysgol ac anghenion unigolion.

Yn ddiweddar mae'r ysgol wedi gosod canllawiau cadarn yn eu lle i fonitro a rheoli gwariant yr ysgol yn ofalus. Mae'r corff llywodraethol wedi gwneud penderfyniadau priodol i ymateb i ddiffyg yn y cyllid o ganlyniad i leihad yn niferoedd disgyblion yr ysgol. Trwy gydweithio'n effeithiol gyda'r awdurdod, mae cynllun addas mewn lle i'r ysgol ymateb i'r sefyllfa.

O ystyried deilliannau'r disgyblion, mae'r ysgol a Chanolfan y Don yn rhoi gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yn gyffredinol mae asesiadau cychwynnol disgyblion ar fynediad i'r ysgol yn dangos sgiliau ieithyddol a mathemategol isel. Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, mae cyflawniadau ar y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn cymharu'n ffafriol ag ysgolion tebyg ymhob agwedd ar wahân i ddatblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol. Mae perfformiad yr ysgol yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran hawl i brydau ysgol am ddim yn y maes dysgu hwn. Fodd bynnag mae perfformiad mewn sgiliau iaith llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg ar ddeilliant 5 a 6. Wrth dynnu deilliannau disgyblion Canolfan y Don o'r data, mae perfformiad yr ysgol yn gyffredinol yn y 25% ar 50% uchaf ymhob maes dysgu o gymharu ag ysgolion tebyg.

Yn 2012, roedd perfformiad yr ysgol ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn dda. Yn gyffredinol, dros y tair blynedd diwethaf, ac eithrio 2012, gosodwyd yr ysgol yn y 25% a'r 50% isaf am ran helaeth o'r amser ymhob pwnc craidd o gymharu ag ysgolion tebyg o ran cinio am ddim. Er bod cynnydd sylweddol yng nghanran y disgyblion a gyrhaeddodd lefel 4+ yn y Gymraeg dros y tair blynedd diwethaf yn gyffredinol mae'r ysgol dal yn perfformio yn y 50% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Dros y tair blynedd diwethaf, mae canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4+ mewn Cymraeg llafar wedi codi'n gyson a bellach mae'n cymharu'n ffafriol ag ysgolion y teulu. Er bod cynnydd mewn ysgrifennu Cymraeg i'w weld, roedd gostyngiad yn y nifer gyrhaeddodd lefel 4+ yn 2012. Fodd bynnag, wrth dynnu deilliannau disgyblion Canolfan y Don o'r data, mae perfformiad yr ysgol dros y tair blynedd diwethaf yn y 25% ar 50% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae cyflawniadau disgyblion ar y lefel uwch (lefel 5+) yn cymharu'n llai ffafriol.

Yn gyffredinol, nid oes bwlch arwyddocaol rhwng cyflawniadau'r bechgyn a'r merched ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Dros gyfnod o amser, mae bechgyn ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn cyflawni'n well na'r merched ar y lefelau uwch (lefel 5+) mewn mathemateg a gwyddoniaeth. Mae data dros gyfnod yn dangos nad yw disgyblion sy'n derbyn cinio am ddim yn cyflawni cystal.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr**

Derbyniwyd 63 o ymatebion gan ddisgyblion. Mae'r ymatebion yn gadarnhaol iawn ac yn gyffredinol yn uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol ar gyfer ysgolion cynradd ar gyfer llawer o'r agweddau

Mae pob plentyn yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn nodi fod bron pob plentyn yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac ar y buarth. Mae llawer yn nodi bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. Mae bron pob un yn nodi eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol a bod yr athrawon a'r oedolion eraill yn eu helpu i wneud cynnydd. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn teimlo bod digon o gyfleoedd iddynt gael ymarfer corff yn yr ysgol a bod yr ysgol yn eu dysgu sut i gadw'n iach..

Mae'r rhan fwyaf yn nodi bod eraill yn ymddwyn yn dda, eu bod yn gallu gwneud eu gwaith a bod y plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.

**Ymateb i'r holiadur i rieni**

Nid oes sylwebaeth ar yr holiaduron i rieni gan mai nifer fach o ymatebion a ddaeth i law (llai na 10).

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Anwen Griffith | Arolygydd Cofnodol |
| Maldwyn Pryse | Arolygydd Tîm |
| William Glyn Griffiths | Arolygydd Tîm |
| Eirian Williams | Arolygydd Lleyg |
| Kevin Davies | Arolygydd Cymheiriaid |
| Robert Jenkins | Enwebai’r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

# Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.